SIOP STAR

Mil naw dau un, Garnant, Sir Gar
Lamp olew'n goleuo stafell gefen Siop Star
Rhywun yn gweithio'n hwyr, cyfri pres
A rhywun arall yn gwylio tra'n camu yn nes.

Lawr wrth yr Aman ar y cerrig man
Hol traed gwaedlyd nad oedd yno o'r blaen
Lan yn y pentref rhyw'n yn sylwi'r drws cefn
Golau lamp olew, drws led y pen.

Daeth dau o Lundain, Scotland Yard
I geisio esbonio'r olion traed
Ond ofer fu'r chwilio, doedd dim eglurhad
Am ddiwedd Tomos Tomos.

Tomos Tomos, mab y crydd
Dyn tynner, dyn tawel a chadarn ei ffydd
Fu'n cadw Siop Star tan y noson ddu
Pan ddaeth lleidr yno i alw.

Daeth cannoedd yng nghyd i ddilyn yr arch
I ddangos eu tristwch, i ddangos parch
A theithio i fynwent Llangyndeyrn
I gludo Tomos adref.

Draw yn Chicago ar ôl blynyddoedd maeth
Rhywun yn cyrraedd pen y daeth
Ar ei weli angau yn cyffesu ei waith
Yng ngolau lamp olew Siop Star.

© Geraint Griffiths 2005